Digwyddiadau yn eich Cylch Meithrin.

Rhifyn 1, Mai 2011

Digwyddiadau y tymor hwn:

Croeso i'n cylchlythyr newydd.

Rydym wedi penderfynu cynhyrchu cylchlythyr bob tymor i roi gwybod i rieni am yr hyn sy'n digwydd yn y Cylch ac am gweithgareddau codi arian sy'n digwydd y tu allan i'r Cylch.

Fel rhan o fenter newydd hon, rydym hefyd yn bwriadu cynnal noson rieni ar gyfer rhieni plant yn y cylch meithrin. Bydd hyn yn digwydd ar ddydd Mercher 18 a dydd Iau 19 Mai o 4pm tan 6 pm. Byddwch yn derbyn llythyr gyda'ch dyddiad ac amser penodedig, mae hyn yn gyfle i chi gael gwybod sut mae eich plentyn yn setlo a gofyn unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn. Yn amlwg mae dyrannu amser sy'n addas i bawb yn anodd felly os yw eich amser yn anghyfleus, gofynnwn i chi geisio dod o hyd i riant arall i gyfnewid â hwy os yn bosibl cyn gofyn i ni am amser gwahanol. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno.

Yn ddiweddar, dechreuwyd sesiynau prynhawn o 13.30-15.30 ac maent wedi bod yn boblogaidd iawn. Rydym yn falch o weld bod cynifer o blant am fynychu'r cylch meithrin yn y Felinheli.

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian yn y pentref gan gynnwys bore coffi, disgo hanner tymor a taith feicio noddedig.

Roedd y digwyddiadau hyn yn llawer o hwyl, roedd y presenoldeb yn wych ac wedi helpu i godi arian ar gyfer y Cylch. Diolch i bawb a oedd yn bresennol ac am noddi y digwyddiadau hyn.

Plant a rhieni yn mwynhau'r daith feicio noddedig

Yn digwydd tymor nesaf:

Rydym yn ddigon ffodus i gael sesiynau iaith a chwarae yn y cylch Ti a Fi unwaith eto, yn dechrau o fis Mai 27 am 6 wythnos. Mae'r cwrs hwn yn gyfle da i ddysgu caneuon Cymraeg gyda'ch plentyn, yn ogystal â bod yn llawer o hwyl.

Thema y tymor hwn ydi'r gwanwyn. Rydym yn trefnu taith i Parc Coed Sipsiwn Mai 13eg yn ogystal â'r taith haf (dyddiad a lleoliad i'w gyhoeddi), croeso i bawb.

Y tymor hwn byddwn hefyd yn cynnal ein CBC (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol) mae'r cyfarfod hwn yn agored i holl rieni sydd am ddod draw i gyfarfod y pwyllgor neu ymuno â'r pwyllgor a bod yn rhan o'n tîm. Dewch draw ar nos Lun 16 Mai am 7.30 o'r gloch. Rydym yn croesawu aelodau newydd ac yn awyddus i glywed eich barn ac yn annog pob cyfraniad. Dewch yn llu!

Dyddiadau ar gyfer eich Dyddiadur ...

Noson Rieni– 18 a 19 Mai. *Eich cyfle i sgwrsio gyda staff am eich plentyn, cael gwybod sut y maent yn setlo a thrafod unrhyw bryderon neu ofyn unrhyw gwestiynau*

Ras rafftio -29 Mai . *Bydd y Cylch yn cael rafft (neu ddau!) yn y ras rafft mawr. Mae'n ddiwrnod hwyliog ar gyfer yr holl deulu p'un a ydych yn cymryd rhan neu dod i wylio a noddi. Rydym yn chwilio am rafftwyr i ymuno â'n tîm felly gofynnwch i aelod o staff os oes gennych ddiddordeb. Os nad oes, dewch draw i gefnogi (a'n noddi ni)*

Siopa ar-lein a chefnogi'r cylch:

Gallwch yn awr gofrestru ar wefan sy'n eich galluogi i gefnogi y cylch tra'n gwneud eich siopa ar-lein am ddim cost ychwanegol! Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw mynd i'r safle siopa drwy safle easyfundraising ac mae'r cylch yn derbyn canran o bob gwerthiant. Nid yw'n costio unrhyw beth ychwanegol i chi, ac mae'n ffordd hawdd i'n cefnogi. Ewch i www.easyfundraising.org a dod o hyd i ni o dan "Caban Clyd"

Rydym hefyd yn awr ar facebook, dewch o hyd i ni o dan "Cylch Meithrin Y Felinheli"